

**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWDYD O BELLTER (TRWY ZOOM), NOS LUN, 6<sup>ed</sup> MEDI 2021 AM 6.30 P.M.**

**YN BRESENNOL:** Y Maer, y Cynghorydd Mrs M. Jones (Cadeirydd)  
Cynghorwyr N. Bastow, C. Brockley, Gemma Campbell, Mrs H. Fleet; D. Howcroft, M. Jones, A. Khan, C. Matthews, R. Owen, J. Pearson, T. Pearson (Dirprwy Faer), S. Price, S. Ryder, M. Tasker, L. Wilkins.

**SWYDDOGION:** Mrs C. J. Earley, Clerc y Dref a Swyddog Cyllid Cyfrifol  
Mrs R. Dudley, Clerc Cynorthwyol

**HEFYD YN BRESENNOL:** Cynghorwyr Sirol C. Carlisle a B. Cossey  
Aelod o'r Cyhoedd

**149/21 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:**

Croesawyd yr holl aelodau ag ymwelwyr i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Tref Mrs Glenys Baker, C. Hughes, D. Jones, A. Mason, Mrs H. Meredith, P Richards, Mrs K. Swindon ag M. Worth

**150/21 Cyhoeddiadau:**

- (a) Rhoddwyd diweddariad gan y Maer i'r Cyngor am y Sul Ddinesig a gynhelir yn Eglwys Fethodistaidd Hen Golwyn, Rhodfa Wynn, Hen Golwyn am 2pm, dydd Sul 26<sup>ain</sup> Medi 2021. Cyn hyn, am 1.50pm, fe gymerir y ffotograff blynyddol ac yn dilyn y gwasanaeth bydd te ar gael yn Neuadd yr Eglwys.
- (b) Fe nodwyd y trefniadau ar gyfer cyflwyno Gwobrau i Wirfoddolwyr y Flwyddyn gan yr Aelodau. Fe gynhelir dau achlysur gwobrwyo ar wahân, dydd Llun 20<sup>fed</sup> (ennillwyr 2020) a dydd Llun 27<sup>ain</sup> (ennillwyr 2021). Yn unol ag Asesiad Risg Covid ar gyfer Neuadd y Dref, bu'n rhaid cyfyngu ar y nifer all fod yn bresennol ac felly'r Maer, Aelodau'r Pwyllgor a'r rhai sy'n cael eu gwobrwyo yn unig fydd yn derbyn gwahoddiad i fod yn bresennol.

**151/21 Datgan Cysylltiadau:**

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiad personol a / neu gysylltiad sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

**152/21 Ymwelwyr a'r Cyngor**

- (a) Gwahoddwyd y Cynghorwyr Sir oedd yn bresennol i gyflwyno adroddiadau byr gan y Cadeirydd. Dywedodd y Cynghorydd Brian Cossey ei fod wedi cael ei benodi yn Aelod y Cabinet dros Gyllid, Adnoddau a Budd-Daliadau. Collodd CBS Conwy llawer o incwm oherwydd y pandemig ond trwy garedigrwydd Llywodraeth Cymru, llwyddwyd i oroesi. Mae Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd yn cael anawsterau oherwydd y broblem o recriwtio. Cadarnhaodd y Cynghorydd Carlisle bod rhai o staff

CBS Conwy yn cael eu defnyddio i gefnogi gyda'r llwyth gwaith. Mae'r staff wedi gorflino ond yn gwneud eu gorau i roi gofal diogel. Fe obeithir cyhoeddi bydd mwy o gyllid ar gael i ofal cymdeithasol a dywedodd y Cynghorydd Carlisle y buasai'n rhoi diweddariad pellach yn y cyfarfod nesaf.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorwyr Sir am fod yn bresennol a gadawsant y cyfarfod.

- (b) Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau ystyried gwahodd Arolygydd yr Ardal, Heddlu Gogledd Cymru i ddod i'r cyfarfod nesaf i roi adroddiad am blismona lleol. Cytunwyd y dylid anfon cwestiynau cyn y cyfarfod.

***Penderfynwyd gofyn i'r Clerc estyn gwahoddiad i Arolygydd yr Ardal ddod i gyfarfod nesaf y Cyngor ag i'r Aelodau anfon unrhyw gwestiynau am blismona lleol cyn y cyfarfod trwy'r Clerc.***

**153/21 Cofnodion:**

- a) ***Penderfynwyd derbyn, cymeradwyo a llofnodi cywirdeb cofnodion:***
- i) ***Cyfarfod arferol diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar 19<sup>eg</sup> Gorffennaf 2021.***
- b) ***Penderfynwyd derbyn a nodi cofnodion y cyfarfodydd canlynol:***
- i. ***Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 27<sup>ain</sup> Gorffennaf a'r 24<sup>ain</sup> Awst 2021.***
  - ii ***Pwyllgor Polisi a Chyllid a gynhaliwyd ar 18<sup>fed</sup> Awst 2021.***
  - iii ***Nodiadau o Gyfarfod Llywio'r Cynllun Cymunedol a gynhaliwyd ar 19<sup>eg</sup> Awst 2021***
  - iv ***Cofnodion drafft Is-Bwyllgor Goleuadau'r Nadolig a gynhaliwyd ar 26<sup>ain</sup> Awst 2021.***

**154/21 Materion yn Codi o'r Cofnodion Hynny:**

- (a) **Cofnod 88/21(a) -Trwsio'r Cwteri a'r To:**
- (i) Rhoddodd y Clerc diweddariad byr ar lafar i'r Aelodau. Anfonwyd copi o adroddiad y Peiriannydd Adeiladau at bob Aelod, ynghyd a diweddariad ysgrifenedig gan yr adeiladydd o'r hyn a wnaed hyd yn hyn. Fe nodwyd gan yr aelodau bod cyfarfod safle wedi cael ei drefnu rhwng y Clerc, yr adeiladydd, y pensaer cadwraeth a'r peiriannydd adeiladau dydd Gwener, i drafod yr adroddiad a materion eraill am y to / teils. Bydd y Clerc yn cyflwyno adroddiad am y cyfarfod hwn.  
***Penderfynwyd rhoi awdurdod dirprwyol i'r Pwyllgor Polisi a Chyllid i gymeradwyo unrhyw waith brys ychwanegol sydd ei angen parthed y tŵr a materion yn ymwneud a'r ro / teils (i'w dalu allan o arian wrth gefn os yn angenrheidiol).***
  - (ii) **Ffenestri newydd:** Cyflwynodd y Clerc pris a ddiweddarwyd am ffenestri pren caled a ffenestri Accoya (pren meddal cafodd ei drin i wneud yn fwy cynaliadwy, gyda chyfnod oes debyg i bren caled, ac a awgrymwyd gan y Pensaer Cadwraeth).

***Penderfynwyd derbyn y pris o £3,021.60 am ffenestri Accoya am y ddwy ffenestr ar lawr gwaelod Neuadd y Dref sydd angen eu hadnewyddu.***

**b) Cofnod 44/21(d) - Offer i alluogi cyfarfodydd hybrid:**

Cyflwynodd y Clerc nodyn briffio gan Lywodraeth Cymru a phrisiau gan gwmnïau sy'n arbenigo yng nghyflenwi / rhoi atebion am ystafelloedd cyfarfod i gynghorau lleol. Fe nodwyd na dderbyniwyd pris arall gan gyflenwr lleol hyd yn hyn, oherwydd gwaeledd. Fe nodwyd hefyd nad oedd cyllid yn debyg i fod ar gael gan Lywodraeth Cymru tuag at y costau o unrhyw offer ychwanegol oherwydd gofynion mwy pwysig am gyllid, er yr apeliadau a wnaed gan Un Llais Cymru am gefnogaeth.

***Penderfynwyd gohirio'r mater hyd nes derbynir y drydydd pris.***

**(c) Cofnodion 89/21 a 124/21(d) - Polisi Oriau Hyblyg / Gweithio o Adref:**

Cyflwynodd y Clerc polisi drafft yn seiliedig ar bolisi model a baratowyd gan Un Llais Cymru.

***Penderfynwyd cymeradwyo'r polisi drafft a'i fabwysiadu.***

**(ch) Cofnodion 91/21 a 122/21(b) - Polisi Yswiriant y Cyngor:**

(i) Fe nodwyd gan yr Aelodau bod y pris i adnewyddu a dderbyniwyd yn ddiweddar gan Zurich wedi codi'n sylweddol ar ôl i fater cod post dod i sylw'r Tanysgrifennwr (roedd yr yswiriant blaenorol yn seiliedig ar y cod post a ddefnyddiwyd gan orsaf yr heddlu).

(ii) Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y pris newydd gan Zurich (£7,498.75) a phris arall gan BHIB, arbenigwr sy'n ymdrin ag yswiriant Cynghorau Lleol (£7,219.39). Fe nodwyd fe ofynnwyd i frocer lleol am bris ond nid oedd yn gallu cyflwyno pris cystadleuol. Er bod pris BHIB ychydig yn rhatach roedd yn amodol ar archwiliadau o'r toeau fflat pob 2 flynedd. Roedd hyn yn gost ychwanegol anhysbys. Fe nodwyd hefyd bod Zurich eisiau gwerthusiad o'r adeiladau a ddiweddarwyd, i'w gael gan brisiwr / tirtfesydd cymwys, oherwydd bod yr adroddiad gwerthuso diwethaf dros bum mlwydd oed.

***Penderfynwyd derbyn y pris gan Zurich a pharhau gyda'r polisi cyfredol am y flwyddyn hon ar y pris uwch, ac i archwilio dewisiadau eraill am gytundeb newydd hirdymor yn fwy llawn haf nesaf.***

**(d) Cofnod 137/21(e) - Is-Bwyllgor Noson y Tân Gwyllt:**

***(i) Penderfynwyd cymeradwyo hepgor y rheoliad ariannol sy'n mynnu cael tri phris, er mwyn i'r bartneriaeth sydd wedi bodoli ers tro byd rhwng y Cyngor Tref, CBS Conwy a'r Gwasanaeth Dân parhau ac i ail-benodi 'Get Set To Go Events' i gyflenwi a rheoli'r tân gwyllt ar noson y digwyddiad.***

(ii) Fe nodwyd yr adborth a gafwyd o'r cyflwyniad diweddar ar gynllun diogelwch y digwyddiad i Grŵp Ymgynghorol ar Ddiogelwch Conwy (SAG) gan yr Aelodau, ac fe gyflwynir hwn i Is-Bwyllgor y Tân Gwyllt yn ddiweddarach yn y mis.

(iii) Fe nodwyd gan yr Aelodau bod y digwyddiad i gael ei gynnal ar ddydd Gwener 5<sup>ed</sup> Tachwedd ac fe atgoffwyd yr Aelodau bydd agen

Cynghorywr / gwirfoddolwr i fod ar gael i reoli traffig a pharcio ceir fel o'r blaen.

- (iv) Fe nodwyd gan yr Aelodau, yr hawliad a dderbyniwyd wythnos diwethaf am niwed a achoswyd trwy ddamwain baglu / syrthio yn nigwyddiad y tân gwyllt 2018. Anfonwyd yr hawliad ymlaen at ein hyswirwyr, Zurich, ac mae'r Clerc yn gwneud ymholiadau gyda ChBS Conwy am unrhyw ohebiaeth flaenorol a dderbyniwyd / cyflwynwyd i ateb yr hawliad.

**(dd) Cofnod 124/21(d) - Asesiad Risg Covid:**

***Penderfynwyd cymeradwyo'r Asesiad Risg Covid a ddiweddarwyd a gyflwynwyd gan y Clerc yn dilyn y cyfarwyddiadau diweddaraf a gafwyd gan Lywodraeth Cymru ar ol symud i lefel brys Covid 0 ar 5<sup>ed</sup> Awst.***

**(e) Cofnod 125/21(d) - Awdurdodi Taliadau:**

***Penderfynwyd cadarnhau'r taliad o £11,088 i GBS Conwy fel cyfraniad tuag at TCC 2021/22.***

**(f) Cofnod 147/21(c) - Goleuadau'r Nadolig:**

***Penderfynwyd cymeradwyo'r archebiant gyda Fesive Lighting i gyflenwi goleuadau newydd i Fae Colwyn ar gytundeb hurbrynu tair blynedd am uchafswm o £9,297 y flwyddyn (disgwylir am archebiant newydd)***

- (ff) **Tîm y Cynllun Cymunedol:** Fe nodwyd gan yr Aelodau bod briff ymgynghori wedi cael ei baratoi, a gofynnodd y Clerc i'r Aelodau roi awdurdod dirprwyol i Dîm y Cynllun Cymunedol i benodi ymgynghorydd / ymgynghorwyr i'w cefnogi trwy gydol y broses o ddatblygu Cynllun Cymunedol / Lleoliad ar gyfer Bae Colwyn, gan ddefnyddio'r gyllideb o £20,000 a glustnodwyd ar gyfer 2021/22.

***Penderfynwyd rhoi awdurdod dirprwyol i Dîm y Cynllun Lleol i benodi ymgynghorydd / ymgynghorwyr i'w cefnogi trwy'r broses o ddatblygu Cynllun Cymunedol / Lleoliad i Fae Colwyn.***

- (g) ***Penderfynwyd nodu penderfyniadau'r Pwyllgorau fel y maent yn ymddangos yn y cofnodion.***

**155/21 Llywodraeth Cymru:** Fe nodwyd yr ohebiaeth ganlynol a gyflwynwyd gan y Clerc i gael ei ystyried:

- (a) Ymgynghoriad ar Reoliadau drafft Etholiadau Lleol (Prif Fannau) (Cymru) 2021 a Rheoliadau drafft Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021.  
(b) Cyhoeddiad ffurfiol Trywydd Sector Cyhoeddus Cymru i gyflawni carbon sero-net erbyn 2030.

**156/21 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):** Fe nodwyd yr adroddiadau / gohebiaeth ganlynol gan yr Aelodau:

- (a) Strategaeth drafft ar Ddiwylliant: Fe anogir pob Aelod i ddarllen hwn ar-lein ac ymateb i'r cwestiynau'r ymgynghoriad  
(b) Tîm y Dref - Fe nodwyd gan yr Aelodau::

- (i) Penodiad Ymgynghorydd i gynorthwyo datblygiad Tîm y Dref i gefnogi ac i weithio tuag at ddyheadau'r Strategaeth Diwylliant.
- (ii) Gwahoddwyd y Clerc i fynychu cyfarfod sydd i'w gynnal ar 7/9//21 gyda'r Ymgynghorydd ac aelodai o 'Tîm y Dref' a bydd yn adrodd yn ol i'r Cyngor yn y man.
- (c) Arwyddion Croeso:  
***Penderfynwyd gohirio'r eitem hon oherwydd disgwylir am ddiweddariad am y gost o'r arwyddion croeso arfaethedig gan GBS Conwy.***
- (ch) DYCHMYGWCH Bae Colwyn:
  - (i) Fe nodwyd y wybodaeth am brosiect taith Ffiws - M-SParc gan yr Aelodau.
  - (ii) ***Penderfynwyd cymeradwyo'r cais am gyllideb o hyd at £600 i greu rhan newydd o wefan y Cyngor Tref a grëwyd gan Livetech i roi mwy o wybodaeth am y defnydd o logo newydd Colwyn ar gael am ddim / yn hawdd i fusnesau lleol, digwyddiadau ayb i gael ei ddefnyddio fel rhan o etifeddiaeth prosiect DYCHMYGWCH.***
- (d) Y Pwll Ymdrochi: Fe nodwyd diweddariad CBS Conwy gan yr Aelodau.
- (dd) Mynediad i'r Traeth i'r Rhai gydag Anabledau: Fe nodwyd yr ohebiaeth gan y Cynghorydd Carlisle yn cadarnhau bod y gwaith yn mynd ymlaen. Bydd pobl gydag anabledau yn gallu cael mynediad at draeth Bae Colwyn erbyn haf 2022.

#### **157/21 Fferm Wynt Awel y Môr:**

Rhoddodd y Cynghorydd R. Owen adroddiad ar lafar am y digwyddiad ymgynghori diweddar a gynhaliwyd ar 7<sup>fed</sup> Giffennaf (fe ranwyd y sleidiau gyda'r aelodau ytn flaenorol). Dywedodd y Cynghorydd Owen mai ar y tir yn Sir Ddinbych byddai effaith mwyaf y datblygiad, lle bydd yr ynni yn cyrraedd y tir ac yn cael ei gysylltu â'r grid cenedlaethol. Gostyngwyd maint y datblygiad ychydig yn dilyn adborth o'r ymgynghoriad cynharach. Effeithir ar yr olygfa arfordirol oherwydd bydd y tyrbinau yn fwy na'r rhai presennol. Mae mapiau a fwy o wybodaeth ar gael am yr arddangosfa ar-lein. Fe nodwyd gan yr aelodau bod yr ymgynghoriad cyhoeddus ehangach yn fyw erbyn hyn, trwy'r arddangosfa ar-lein. Diolchwyd i'r Cynghorydd Owen am ei adroddiad.

#### **158/21 Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:**

Fe nodwyd y cofnodion a gymerwyd gan y Cynghorydd Mike Parry, cynrychiolydd Un Llais Cymru, gan yr Aelodau.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.30 pm .....Cadeirydd